



Cynllun [Hawl i Wneud Cais i Weithio'n Hyblyg](#)

Canllawiau i Weithwyr

CYNNWYS

Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
Cwestiynau Cyffredin	1
Siart Llif o'r Weithdrefn – Sut mae'r Broses yn gweithio?.....	Error! Bookmark not defined.

defined.5

1. **CYFLWYNIAD**

Bwriad y canllawiau yma yw helpu gweithwyr i gyflwyno cais o dan y cynllun. Darllenwch nhw ochr yn ochr â'r Cynllun 'Hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg'

2. **CWESTIYNAU CYFFREDIN**

Pwy all wneud cais?

Mae'r hawl i wneud cais o dan y cynllun ar gael i holl weithwyr cyflogedig y Cyngor/Corff Llywodraethu sydd:

- Wedi gweithio i'r Cyngor/Corff Llywodraethu am 26 wythnos yn olynol erbyn dyddiad gwneud y cais (dydy hyn ddim yn cynnwys gweithwyr asiantaeth)
- Ddim wedi gwneud cais i weithio'n hyblyg o dan yr hawl yma, yn ystod y 12 mis diwethaf

Pryd caf i wneud cais?

Ar unrhyw adeg, ar yr amod eich bod chi'n bodloni'r meini prawf uchod

Pa mor aml galla i wneud cais?

Gallwch chi wneud cais unwaith y flwyddyn. Mae pob blwyddyn yn para o'r dyddiad y cafodd y cais ei wneud.

Pa fath o newidiadau caf i wneud cais amdany'n nhw?

Mae modd gwneud cais am amrywiaeth eang o wahanol fathau o batrymau gwaith. Mae modd i weithwyr cymwys wneud cais i:

- Newid nifer yr oriau maen nhw'n eu gweithio
- Newid yr amseroedd pan mae'n ofynnol i weithio

Gall cais fod mor syml â gofyn am ddechrau hanner awr yn hwyrach nag arfer er mwyn eich galluogi chi i fynd â'ch plentyn i'r ysgol; neu ofyn am leihau'r nifer o oriau gwaith / newid patrwm y sifft. Bydd amgylchiadau unigol yn pennu'r math o newid sydd ei angen arnoch chi.

Mae'n bwysig cydnabod bod Gweithio'n Hyblyg yn cynnwys amrywiaeth eang o arferion gweithio ac y gall unrhyw batrwm gwaith sy'n wahanol i'ch patrwm gwaith arferol fod yn drefniant gweithio hyblyg.

Am faint bydd y newidiadau (sydd wedi'u cytuno) yn para?

Os yw cais o dan y cynllun yn cael ei dderbyn, mae'r newidiadau yn **barhaol** a fydd dim modd i chi ailgydio yn eich oriau/patrwm gwaith gwreiddiol.

Gaf i dynnu fy nghais yn ôl?

Cewch, ond rhaid i chi wneud hynny mewn ysgrifen ar Ffurflen FW7 (Ffurflen Tynnu Cais yn ôl Hawl i Weithio'n Hyblyg). Anfonwch hi at y Pennaeth (neu Gadeirydd y Corff Llywodraethau os y Pennaeth sy'n gwneud y cais). Bydd ef/hi yn cadarnhau mewn ysgrifen bod y cais wedi cael ei dynnu'n ôl.

Os tynnaf i fy nghais yn ôl, gaf i wneud cais arall?

Ddim ar unwaith - bydd rhaid i chi aros 12 mis cyn gwneud cais arall.

Oes modd i reolwyr dynnu fy nghais yn ôl?

Oes, os byddwch chi'n methu â bod yn bresennol mewn dau gyfarfod heb achos rhesymol, neu os ydych chi'n gwrthod darparu'r wybodaeth ofynnol i alluogi'r Pennaeth (Cadeirydd y Llywodraethwyr os y Pennaeth sy'n gwneud y cais) i wneud argymhelliad.

Oes modd i mi gael cyfnod prawf?

Chewch chi ddim gofyn am gyfnod prawf, ond os yw'r Pennaeth (Cadeirydd y Llywodraethwyr os y Pennaeth sy'n gwneud y cais) sy'n ystyried eich cais yn ansicr am effaith y trefniant newydd ar y gwasanaeth, mae'n bosibl y bydd ef/hi yn dymuno cytuno ar gyfnod prawf. **(Gweler 2.8 a 2.9 yn y Cynllun).**

Gaf i ofyn am newid dros dro?

Mae'n bosibl y bydd angen arnoch chi newid eich patrwm gwaith dros dro oherwydd problem benodol nad oes disgwyl iddi hi fod yn barhaol. Ddylai cais o'r fath **ddim cael ei wneud o dan y Cynllun yma.**

Dylech chi drafod unrhyw broblem dros dro gyda'ch Pennaeth. Bydd eich Pennaeth, ar y cyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr a Phwyllgor priodol y Corff Llywodraethu, yn ymdrin â'r math yma o gais mewn ffordd gydymdeimladol a chefnogol gan ystyried eich anghenion chi ac anghenion y gwasanaeth. Caiff unrhyw gytundeb ar gyfer newid dros dro ei osod allan yn glir (mewn ysgrifen), bydd terfyn amser yn cael ei gytuno a bydd y newid yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Os daw newid dros dro yn ofyniad parhaol, yna dylai cais gael ei gyflwyno yn unol â'r cynllun 'Hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg'.

Os ydych chi'n ansicr, siaradwch â'ch Pennaeth neu gysylltu â'ch adran Adnoddau Dynol am gyngor.

Pwy fydd yn ystyried y cais?

At ddiben y cynllun, bydd y Pennaeth (Cadeirydd y Llywodraethwyr os y Pennaeth sy'n cyflwyno cais) yn cyflwyno argymhelliad i Bwyllgor Adnoddau Dynol y Corff Llywodraethu i ystyried y cais.

All cais gael ei wrthod?

Gall, ond dim ond lle bo rheswm busnes amlwg. Mae rhestr o resymau o'r fath yn 2.7 o'r Cynllun.

Oes terfynau amser ar gyfer ystyried ceisiadau?

Oes, fe welwch chi'r rhain yn Adran 3.1 o'r Cynllun ac mae siart llif o'r weithdrefn ar dudalen 8 y canllawiau yma. Mae copïau o'r ffurflenni sy'n cael eu cyfeirio atyn nhw yn y weithdrefn ynghlwm.

All terfynau amser gael eu hestyn?

Gall - ond dim ond os ydych chi a'r Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cytuno ar hyn. Os yw'r Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr yn absennol o'r gwaith pan fydd y cais yn cael ei dderbyn, yna, bydd y terfynau amser yn weithredol o ddyddiad dychwelyd y Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr, neu 28 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, p'un bynnag yw'r cynharaf.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi gyflwyno cais?

Bydd y Pennaeth/Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cyfarfod â chi i drafod eich cais; mae'r union weithdrefn i'w dilyn yn cael ei chynnwys yn Adran 3.1 o'r Cynllun. Byddai'n helpu eich achos pe baech chi wedi meddwl am sut gallai'r newid effeithio ar eich cydweithwyr, ac ar ddarpariaeth y gwasanaeth rydych chi'n rhan ohono. Dylech chi hefyd ystyried sut y gall unrhyw broblemau posibl cael eu goresgyn. Bydd hyn yn helpu'r swyddog priodol i ddod i benderfyniad.

Oes modd i mi gael cwmni yn y cyfarfod?

Oes. Bydd modd i chi gael cwmni cydweithiwr neu Gynrychiolydd Undeb Llafur, a fydd yn gallu annerch y cyfarfod a chyd-drafod gyda chi; chaiff y person yma ddim ateb ar eich rhan fodd bynnag. (Gweler Adran 3.1 o'r Cynllun).

Gaf i apelio os bydd fy nghais yn cael ei wrthod?

Cewch. Fe welwch chi'r weithdrefn a'r terfynau amser yn Adran 3.1 o'r Cynllun. Caiff rhywun ddod yn gwmni i chi yn y cyfarfod apêl hefyd.

Pwy fydd yn ystyried yr apêl?

Pwyllgor Materion Cwyno ac Apeliadau y Corff Llywodraethu fydd yn gwneud hynny, ynghyd â chynrychiolydd o'r adran Adnoddau Dynol, a fydd yn bresennol i roi cyngor yn unig.

Beth fydd yn digwydd os colla i'r apêl?

Mae hynny'n golygu bod eich cais wedi cael ei wrthod a fyddwch chi ddim yn cael cyflwyno cais arall cyn pen 12 mis.

Gaf i gyflwyno apêl i rywun arall?

Cewch - ond dim ond os na ymdriniwyd â'r apêl yn briodol o dan y weithdrefn. Yna, efallai y bydd gyda chi'r hawl i fynd ar drywydd hawliad i Dribiwnlys Cyflogaeth.

SIART LLIF O'R WEITHDREFN – SUT MAE'R BROSES YN GWEITHIO?

